**Cynllun Sicrhau Buddion UNO**

**Cefndir**

Nod y prosiect UNO oedd creu system TGCh gyfoes i alluogi'r Cynulliad i weithio'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, i wella parhad busnes ac i alluogi'r Cynulliad i wneud dewisiadau priodol a chost effeithiol ynghylch y ddarpariaeth TGCh yn y dyfodol.

Gellir crynhoi'r buddion a ddisgwylir yn sgil y prosiect fel a ganlyn:

- sicrhau defnydd mwy cydlynol o adnoddau drwy roi Aelodau a'u staff a staff y Cynulliad ar yr un rhwydwaith, gan gynyddu effeithlonrwydd gwaith;
- cyflawni arbedion drwy ddarparu llwyfan annibynnol ar gyfer darparu gwasanaethau integredig, i'w cael o'r ffynhonnell fwyaf cost effeithiol ac effeithlon;
- sicrhau canlyniadau mesuradwy ar ôl rhoi technolegau, systemau a phrosesau newydd ar waith drwy foderneiddio'r ystâd TGCh a darparu'r dechnoleg ddiweddaraf i wella ymgysylltiad y cyhoedd;
- parhad busnes gwell a systemau mwy cadarn; a
- cysylltedd gwell, yn enwedig o swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol.

**Y cynllun hwn**

Cafodd y buddion cyffredinol eu categoreiddio a'u rhannu gan Fwrdd Prosiect UNO. Rhoddwyd perchennog i bob budd, ac amserlen ar gyfer ei gwblhau. Gan ddefnyddio cyfres o fesurau, gan gynnwys monitro costau, casglu adborth gan ddefnyddwyr, a chyfarfodydd rheolaidd â chyflenwyr, gellir defnyddio'r Cynllun i fesur y cynnydd yn erbyn pob budd.

Dyma'r buddion a gaiff eu mesur:

1. desg gymorth well yn y Cynulliad;
2. dulliau mwy eglur o weld y costau TGCh;
3. dulliau gwell o ddarparu gwasanaethau;
4. cynaliadwyedd gwell;

5. mynediad gwell i wefannau rhwydweithio cymdeithasol;
6. y sefydliad i gael gwybodaeth well cyn y cynhelir ymarferion caffael;
7. gwelliant yn yr amserau logio i mewn/logio allan;
8. isadeiledd technegol gwell;
9. gallu gwell i gyflwyno meddalwedd newydd;
10. cael gwared ar y ddibyniaeth ar Lywodraeth Cymru ar gyfer diweddariadau / newidiadau; a
11. perthynas waith well gydag Atos.

Bydd adroddiad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y buddion hyn yn cael ei gyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad a Bwrdd Rheoli'r Cynulliad bob chwe mis.

**1. Desg gymorth well yn y Cynulliad**

| | |
|---|---|
| Targed | |
| Sefydlu un ddesg gymorth benodol ynghyd â chontract cymorth y Senedd, gyda'r nod o leihau nifer y staff cymorth sydd eu hangen a, thrwy hynny, leihau'r costau dros amser. | |
| Perchennog(perchenogion) y budd | Altos |
| Sut y byddwn yn mesur y cynnydd | • gydag arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid; a<br>• lleihad yng nghyfanswm y costau perchenogaeth |
| Pryd y byddwn yn mesur y cynnydd | Yn flynyddol, o haf 2011 |
| Pwy fydd yn mesur y cynnydd | Y Pennaeth TGCh a Darlledu |
| Cynnydd hyd yn hyn / Y wybodaeth ddiweddaraf | |
| Bu un ddesg gymorth yn weithredol ers haf 2010. Ar ôl cyflenwi prosiect UNO, mae'r Cynulliad bellach yn darparu desg gymorth gwbl ddwyieithog i bob aelod o staff yn ogystal ag i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth am y tro cyntaf.<br><br>Yn yr arolwg ar gyfer defnyddwyr UNO, roedd 40 y cant o'r defnyddwyr yn credu bod | |

| |
|---|
| y gwasanaeth a ddarperir gan y ddesg gymorth wedi gwella; roedd 21 y cant yn credu nad oedd wedi gwella; ac roedd 32 y cant yn credu nad oedd unrhyw wahaniaeth. Gofynnwyd i ddefnyddwyr hefyd raddio eu bodlonrwydd gyda gwahanol elfennau'r ddesg wasanaeth; roedd y graddfeydd bodlonrwydd fel a ganlyn:<br>• pa mor hawdd yw cysylltu â'r ddesg/ cofnodi problemau: 75 y cant<br>• yr amser y mae'n ei gymryd i ateb galwadau: 71 y cant<br>• yr amser y mae'n ei gymryd i ddatrys problemau: 68 y cant<br>• gwybodaeth am y sefydliad: 74 y cant<br>• cwrteisi a phroffesiynoldeb y staff: 82 y cant |

**2. Dulliau mwy eglur o weld y costau TGCh**

| Targed | |
|---|---|
| Drwy sefydlu rhwydwaith unedig sy'n gwasanaethu holl ddefnyddwyr y Cynulliad, yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, dylai costau cyfran y Cynulliad o'r contract fod yn fwy eglur.<br><br>Yn y pen draw, bydd hyn yn helpu gyda'r amcan tymor hir o leihau cyfanswm y gost perchenogaeth i £1,000 y flwyddyn am bob bwrdd gwaith erbyn 2014. | |
| Perchennog(perchenogion) y budd | TGCh y Cynulliad |
| Sut y byddwn yn mesur y cynnydd | • dadansoddiad o gostau model y gwasanaeth newydd; |
| Pryd y byddwn yn mesur y cynnydd | Unwaith y derbyniwn y costau PSM2;<br><br>Dewislen lawn o'r costau wedi'u darparu erbyn Haf 2013 |
| Pwy fydd yn mesur y cynnydd | Y Pennaeth TGCh a Darlledu |
| Cynnydd hyd yn hyn / Y wybodaeth ddiweddaraf | |
| Rydym eisoes wedi nodi arbediad o £200,000 y flwyddyn ar gysylltedd data. | |

| |
|---|
| Mae disgwyl i'r costau ar gyfer model gwasanaeth y Cynulliad (PSM2) gael eu darparu'r mis hwn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio ar gael dull mwy eglur o weld yr holl gostau TGCh. Bydd y ddau gam hyn yn sicrhau mwy o eglurder o ran ble mae ein costau'n digwydd a beth y gallwn ganolbwyntio arno.<br><br>Mae gwaith meincnodi yn digwydd ar hyn o bryd, sy'n cymharu costau'r Cynulliad â chostau cynulliadau a seneddau eraill y DU. |

**3. Dulliau gwell o ddarparu gwasanaethau**

| Targed | |
|---|---|
| Creu model gwasanaeth ar wahân i reoli gofynion Gwasanaeth y Cynulliad, drwy gyfrwng Memorandwm Gwasanaeth Prosiect (PSM2). | |
| Perchennog(perchenogion) y budd | Llywodraeth Cymru |
| Sut y byddwn yn mesur y cynnydd | • drwy gyfrwng gweithredu PSM2 yn llwyddiannus |
| Pryd y byddwn yn mesur y cynnydd | O fis Ionawr 2011 |
| Pwy fydd yn mesur y cynnydd | Y Pennaeth TGCh a Darlledu |
| Cynnydd hyd yn hyn / Y wybodaeth ddiweddaraf | |
| Nid yw'r model gwasanaeth newydd ar gyfer y Cynulliad (PSM2) yn barod ar hyn o bryd. Atos i ddarparu'r costau erbyn diwedd mis Medi 2011. | |

**4. Cynaliadwyedd gwell**

| Targed | |
|---|---|
| Llai o galedwedd newydd a chyfanswm cost perchenogaeth is ar gyfer pob bwrdd gwaith. Sefydlu meincnod ar gyfer y defnydd o bŵer. | |
| Perchennog(perchenogion) y budd | Rheoli Cyfleusterau / TGCh |

| | |
|---|---|
| Sut y byddwn yn mesur y cynnydd | • ailddefnyddio ac ailgylchu unrhyw offer TGCh segur; ac<br>• mae angen defnyddio dull asesu ar gyfer y defnydd o bŵer |
| Pryd y byddwn yn mesur y cynnydd | Parhaus |
| Pwy fydd yn mesur y cynnydd | Y Pennaeth Cyfleusterau |
| Cynnydd hyd yn hyn / Y wybodaeth ddiweddaraf | |
| Mae'r holl offer a ddisodlwyd fel rhan o brosiect UNO naill ai wedi cael ei ailddefnyddio neu ei dynnu'n ddarnau a'i ailgylchu. | |

**5. Mynediad gwell i wefannau rhwydweithio cymdeithasol**

| | |
|---|---|
| Targed | |
| Drwy ddarparu mynediad gwell i wefannau rhwydweithio cymdeithasol, y nod yw gwella'r ymgysylltiad rhwng y Cynulliad a'r cyhoedd, a rhwng Aelodau a'u hetholwyr. | |
| Perchennog(perchenogion) y budd | Diogelwch TGCh |
| Sut y byddwn yn mesur y cynnydd | • arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid; a<br>• adborth gan y gangen Cyfathrebu Allanol |
| Pryd y byddwn yn mesur y cynnydd | Haf 2011 |
| Pwy fydd yn mesur y cynnydd | Y Pennaeth TGCh a Darlledu |
| Cynnydd hyd yn hyn / Y wybodaeth ddiweddaraf | |
| Gall Aelodau'r Cynulliad gael mynediad i wefannau a dulliau rhwydweithio cymdeithasol ar offer TGCh a ddarparwyd gan y Cynulliad, gan gynnwys cyfrifiaduron desg, gliniaduron a dyfeisiau Blackberry. | |

**6. Y Cynulliad i gael gwybodaeth well cyn y cynhelir ymarferion caffael**

| Targed | |
|---|---|
| I ddeall yr asedau a ddefnyddir (caledwedd a meddalwedd) ar ystâd y Cynulliad, drwy gyfrwng dogfennau dylunio cynhwysfawr, y gellir eu defnyddio mewn ymarfer caffael pe bai'r Cynulliad yn penderfynu gwahodd tendrau ar gyfer ei wasanaethau TGCh yn 2014.<br><br>Canfod gwir gostau'r ddarpariaeth TGCh ar gyfer y Cynulliad, a fydd yn ein helpu i feincnodi costau'r gwasanaeth. | |
| Perchennog(perchenogion) y budd | TGCh y Cynulliad |
| Sut y byddwn yn mesur y cynnydd | • data blynyddol a misol ar y dull o godi tâl a rheoli asedau ; a<br>• cyflwyno dogfennau dylunio diwygiedig gan Atos yn dilyn unrhyw newidiadau a wneir i'r rhwydwaith |
| Pryd y byddwn yn mesur y cynnydd | Bob chwarter |
| Pwy fydd yn mesur y cynnydd | Y Rheolwr Technegol TGCh |
| Cynnydd hyd yn hyn / Y wybodaeth ddiweddaraf | |
| Cafwyd anawsterau wrth osod meddalwedd rheoli asedau Altos, ac mae'r gwaith yn canolbwyntio ar galedwedd yn gyntaf ac yna ar feddalwedd. Mae'r sefyllfa o ran y costau cynnal a chadw blynyddol yn aneglur o hyd - o ran a ddylid eu cynnwys yn y tâl gwasanaeth am y rhwydwaith ai peidio. | |

**7. Gwelliant yn yr amserau logio i mewn/logio allan**

| Targed | |
|---|---|
| Lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i logio i mewn i'r system, lle bynnag y bo'r lleoliad, gyda'r prif nod o wella'r profiad i ddefnyddwyr mewn swyddfeydd etholaethol ac unigolion sy'n gweithio gartref. | |
| Perchennog(perchenogion) y budd | Altos |

| | |
|---|---|
| Sut y byddwn yn mesur y cynnydd | • gydag arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid;<br>• drwy gyfrwng gwybodaeth a gasglwyd o alwadau i'r ddesg gymorth TGCh; a<br>• drwy gyfrwng adborth a gasglwyd gan y Rheolwyr Cyfrifon TGCh. |
| Pryd y byddwn yn mesur y cynnydd | Yn flynyddol (arolygon bodlonrwydd)<br><br>Bob chwarter (ystadegau'r ddesg gymorth) |
| Pwy fydd yn mesur y cynnydd | Y Rheolwr Technegol TGCh |
| Cynnydd hyd yn hyn / Y wybodaeth ddiweddaraf | |
| Mae'r cylchedau newydd yn parhau i gael eu gosod ar gyfer defnyddwyr, ond mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y system yn gynt. Mae'r profiad o logio i mewn i ddefnyddwyr band eang wedi gwella o ganlyniad i'r llinellau newydd. Mae'r dull o weithio gyda rhaglenni a ffeiliau mwy wedi gwella. | |

**8. Isadeiledd technegol gwell**

| | |
|---|---|
| Targed | |
| Y tri phrif darged yw: gwella'r cysylltedd â'r rhwydwaith, yn enwedig mewn swyddfeydd etholaethol ac yn y cartref ar gyfer gweithwyr gartref; cael dull mwy effeithiol o rannu dogfennau a data rhwng Aelodau Cynulliad a staff y Cynulliad; a chael rhwydwaith mwy dibynadwy a pharhad busnes gwell. | |
| Perchennog(perchenogion) y budd | Altos / TGCh |
| Sut y byddwn yn mesur y cynnydd | • gydag arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid;<br>• gyda phrofion ar y gweinydd wrth gefn ar gyfer y gweinyddwyr parhad busnes; a<br>• drwy fonitro'r data ar alwadau am gymorth. |
| Pryd y byddwn yn mesur y cynnydd | Yn flynyddol (arolygon, profion ar y gweinydd wrth gefn) |

| | |
|---|---|
| | Cyfarfodydd misol gydag Atos. |
| Pwy fydd yn mesur y cynnydd | Y Rheolwr Technegol TGCh |
| Cynnydd hyd yn hyn / Y wybodaeth ddiweddaraf | |
| Mae gan y rheiny sydd â llinellau newydd amserau a phrofiadau logio i mewn gwell.<br><br>Mae'r llwyfan newydd wedi darparu'r sail ar gyfer System Rheoli Busnes y Cynulliad, sy'n ysgafnhau'r baich ar ein system e-bost, ond nid oes strategaeth rheoli gwybodaeth ar draws y Cynulliad cyfan o hyd i gymryd mantais o'r ffaith mai un rhwydwaith sydd.<br><br>Oherwydd y gwaith sy'n mynd rhagddo i wella'r rhwydwaith GF, ni chynhaliwyd y profion ar y gweinydd wrth gefn yr haf hwn. Mae'r tîm TGCh yn gweithio gydag Altos ar gynllun i weld pa agweddau ar yr isadeiledd y gellir eu profi gyda'r risg lleiaf. | |

**9. Gallu gwell i gyflwyno meddalwedd newydd**

| Targed | |
|---|---|
| Dull amserol, cost effeithiol o werthuso a chyflwyno meddalwedd newydd ar gyfer rhwydwaith y Cynulliad ac o gynnal prawf effaith arni.<br><br>Anelu at gyflwyno meddalwedd newydd ar raddfa gyflymach nag o'r blaen, drwy gyfrwng proses a gytunwyd rhwng y Cynulliad ac Atos. | |
| Perchennog(perchenogion) y budd | Atos / TGCh |
| Sut y byddwn yn mesur y cynnydd | • adroddiadau gan Atos; ac<br>• adborth gan ddefnyddwyr |
| Pryd y byddwn yn mesur y cynnydd | Bob mis |
| Pwy fydd yn mesur y cynnydd | Y Rheolwr Technegol TGCh |
| Cynnydd hyd yn hyn / Y wybodaeth ddiweddaraf | |
| Ar hyn o bryd, nid yw'r budd yn cael ei brofi'n llawn, gan ein bod yn rhannu adnodd a reolir gan Lywodraeth Cymru i becynnu a threfnu meddalwedd.<br><br>Y flaenoriaeth bresennol ar gyfer adnoddau yw sicrhau bod yr isadeiledd sylfaenol yn gweithio'n gywir cyn y cyflwynir unrhyw feddalwedd newydd. | |

**10. Cael gwared ar y ddibyniaeth ar Lywodraeth Cymru ar gyfer diweddariadau a newidiadau**

| Targed | |
|---|---|
| Drwy gyflwyno system TGCh sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, dylai'r Cynulliad allu gwneud cais am ddiweddariadau a newidiadau yn seiliedig ar ei flaenoriaethau a'i ofynion. Drwy gael gwared ar y ddibyniaeth ar Lywodraeth Cymru, yr amcan yw cyflwyno'r diweddariadau a'r newidiadau hyn mewn dull mwy amserol; gall y newidiadau fod yn fwy arloesol hefyd. | |
| Perchennog(perchenogion) y | TGCh y Cynulliad |

| | |
|---|---|
| budd | |
| Sut y byddwn yn mesur y cynnydd | • PSM2 i gyflwyno prosesau a gweithdrefnau ar gyfer diweddariadau/newidiadau safonol |
| Pryd y byddwn yn mesur y cynnydd | Bob chwarter o fis Mawrth 2011 |
| Pwy fydd yn mesur y cynnydd | Y Pennaeth TGCh a Darlledu |
| Cynnydd hyd yn hyn / Y wybodaeth ddiweddaraf | |
| Mae'r ddibyniaeth ar Lywodraeth Cymru wedi dod i ben, ond mae rhai blaenoriaethau yn gwrthdaro o hyd (gweler budd 9), a gallai hyn arafu rhai datblygiadau sy'n cael eu harwain gan y Cynulliad. | |

**11. Perthynas waith well gydag Altos**

| | |
|---|---|
| Targed | |
| Creu partneriaeth gydag Atos | |
| Perchennog(perchenogion) y budd | TGCh / Atos |
| Sut byddwn yn mesur y cynnydd | • amserlen o gyfarfodydd rheolaidd; a<br>• cynllun cyfathrebu |
| Pryd y byddwn yn mesur y cynnydd | Bob mis |
| Pwy fydd yn mesur y cynnydd | Y Pennaeth TGCh a Darlledu / Rheolwyr Gwasanaeth |
| Cynnydd hyd yn hyn / Y wybodaeth ddiweddaraf | |
| Cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal yn wythnosol rhwng y Pennaeth TGCh a rheolwr cyfrif Altos.<br><br>Y cyfarfodydd arferol a gynhelir yn wythnosol ac yn fisol yn parhau. | |